

TAITH GERDDED GYLCHOL Y WAUN AC AFON CEIRIOG

Mae'r daith gerdded yma yn mynd o'r Waun i Gastell Y Waun, yn croesi parcdir, disgyn at Afon Ceiriog, ac ar hyd glan yr afon yn ol i'r Waun. Mae digon o amrywiaeth ar y daith hon: porfa agored, coetir a glan yr afon. Mae'r daith yn 7 milltir o hyd, gan ddechrau ym maes parcio'r Waun, er bod modd ei dechrau o faes parcio Castell Y Waun; caniatewch ryw 4 awr. Sicrhewch fod gennych esgidiau cerdded, a thortsh os ydych am fynd drwy dwannel y gamlas.

Sut i gyrraedd yno: O Wrecsam ewch tua'r de ar hyd yr A483 hyd at y gyffordd gyda'r A55. Cymerwch y 3ydd troad ar y cylchfan, ac ar y gylchfan nesaf, cymerwch y troad 1af ar gyfer Y Waun. Trowch i'r chwith union cyn Gwesty'r Hand, ac yna i'r dde i mewn i'r maes parcio. Mae'n bosib cyrraedd hefyd o Wrecsam ar fws Rhif 2 (Croesoswallt) – mae'r bysiau yn gadael pob 30 munud, neu ar y tren i orsaf Y Waun.

Gadewch y maes parcio yn y pen pellaf, drwy faes parcio'r Gwesty, a chroesi'r ffordd ger y groesfan pelican, yna troi i'r chwith. Trowch i'r dde i Ffordd y Castell, a cherdded i ben y ffordd (cyffordd T gyda man gylchfan). Os ydych am fynd drwy dwannel y gamlas ewch i'r chwith wrth giat ddu gam cyn pen y ffordd, i lawr at y gamlas, troi i'r dde a mynd drwy'r twannel sy'n 459 o lathenni o hyd. Ym mhen pellaf y twannel trowch i'r dde, i fyny hyd at dop ceg y twannel, ac i'r dde eto ar lwybr troed. (Y ffordd arall yw mynd i'r dde ym mhen Ffordd y Castell, at orsaf y rheilffordd, troi i'r chwith dros bont y rheilffordd, ac yna i'r dde tuag at ble mae'r gamlas yn dod allan o'r twannel, a throi yn syth i'r chwith ar lwybr troed).

Mae'r llwybr yn mynd drwy'r coed uwchlaw'r gamlas, ac ar ol 140 metr mae'n troi i'r chwith, gan groesi cae at ffordd. Bron yn union gyferbyn mae llwybr troed i Gastell Y Waun.

Ewch ar draws y parc gan ddilyn y pyst â streipen wen at giât mochyn bren gyda phostyn â streipiau glas a gwyn. Peidiwch â mynd trwy'r giât, ond trowch yn ôl i'r chwith er mwyn dilyn y pyst â streipen las. Mae'r llwybr yn arwain tuag at goedwig, lle mae'r pyst yn newid i streipiau glas a choch, tua hanner ffordd. Tua pen draw'r goedwig, trowch i'r dde mewn cyffordd heb arwyddion er mwyn mynd drwy giât bren o flaen postyn â streipen goch. Trowch i'r dde a dilynwch y pyst â streipiau glas a choch, ac ymhen tipyn, pasiwch drwy a chadwch i'r chwith o bostyn giât â streipen las. Parhewch i ddilyn y pyst gleision nes eich bod yn cyrraedd y ffordd darmac. Dylech gerdded ar ei hyd nes bod muriau'r castell yn ymestyn uwch eich pen ar y dde. Cadwch i'r chwith wrth yr arwydd llwybr troed â streipen wen, a throwch i'r chwith er mwyn mynd am y Maes Parcio. Dilynwch y trywydd i'r chwith o'r Maes Parcio er mwyn dilyn y pyst â streipen wen. Mae'r llwybr hwn yn mynd ar draws dir pori hyd at lle mae'r lôn yn troi'n sydyn wrth ymyl tŷ.

Mae'r llwybrau'n uno yma

Yn arwain ar draws tir pori at dro sydyn mewn lon wrth ymyl tŷ. Yma rydych yn cyfarfod Llwybr Clawdd Offa (LICO), trowch i'r chwith ar y llwybr yma. Mae'r llwybr yn mynd ar i fyny nawr drwy dir pori; dilynwch y cyfeirbyst 'mes'. Ar ben y codiad fe welwch olygfeydd da o'r wlad o'ch amgylch. Mae'r llwybr yn cwrdd a thrac caregog, trowch i'r chwith ddal ymlaen i ddilyn LICO i lawr at y ffordd ger Castle Mill. Cyn croesi'r ffordd ewch ychydig i'r chwith ble mae tri bwrdd arddangos sy'n disgrifio brwydr Crogen a ddigwyddodd yma ym 1165. Nawr croeswch y ffordd; byddwch yn ofalus am fod traffig yn mynd yn gyflym ar hyd darn yma o'r ffordd. Croeswch dros y bont i mewn i Swydd Amwythig, ac ar ben yr allt fe ddowch at gyffordd T.

Gadewch LICO, trowch i'r chwith ar hyd y lon (arwydd Llwybr Maelor). Ar eich llaw dde fe welwch chi hen odynau calch. Ewch yn eich blaen ar hyd y lon yma am yn agos I hanner milltir, wedi ichi fynd heibio "The Old School" trowch i'r chwith i lawr rhodfa, gydag arwydd y *Shropshire Way*. Mae'r trac yma yn newid i fod yn llwybr troed.

Cadwch lygad ar agor am goeden fawr, Poplysen Ddu brin; mae'n bosib mae llwybr y porthmyn oedd hwn ac roedd coed tal yn cael eu plannu i ddangos y ffordd. Dilynwch y llwybr sydd a chyfeirbyst, ar hyd llethr coediog serth uwchlaw'r afon; cewch gipolwg o fferm bysgod ar ochr arall yr afon. Ewch dros gamfa ac ar draws llifddol eang, sy'n arwain at lon. Trwoch i'r chwith ac ymhen ychydig i'r chwith eto dros bont Pont Faen.

Ym mhen pellaf y bont trwoch i'r dde a mynd ar hyd llwybr troed ar draws dol fawr arall, gan ddilyn yr afon. Fe welwch draphont y rheilffordd a thraphont ddŵr y gamlas o'ch blaen. Ewch o dan y strwythurau gwych yma, ac allan at ffordd. Croeswch y ffordd gyda gofal tuag at "Divine Dreams", a chymryd y llwybr ar y chwith. Mae hwn yn arwain at y ffordd ger yr eglwys. Wedi cyrraedd y ffordd trowch i'r dde, ac yn ol I mewn i'r Waun, ac mae'r maes parcio ar ochr dde Gwesty'r Hand. Cyn gadael efallai y bydd gennych amser dorri syched; mae dwy ystafell de yma, y Gwesty a siop fara.